



DATGANIAD I'R WASG

Mae Cyngor Tref Caerfyrddin wedi canslo nifer o ddigwyddiadau o ganlyniad i fesurau sydd yn cael eu cymryd i ddelio â phandemig Coronafirws.

Roedd Cynhadledd Hinsawdd i Blant Cyngor Tref Caerfyrddin i'w gynnal, am y tro cyntaf erioed, dydd Mercher 18fed o Fawrth yn Neuadd Ddinesig San Pedr. Roedd dros ugain o ysgolion lleol a sefydliadau eraill i gwrdd i rannu arferion da ac i drafod blaenoriaethau lleol ac i baratoi cynllun gweithredu ar gyfer y Cyngor y Dref, ond bu rhaid canslo hyn.

Mae Rasys y Maer blynyddol a oedd i'w cynnal eleni ar ddydd Llun y Pasg, 13eg o Ebrill, wedi cael eu gohirio a gobeithio y byddant yn cael eu haildrefnu yn hwyrach yn y flwyddyn, unwaith y bydd fwy o wybodaeth am sefyllfa'r coranafirws y pryd hynny. Mae hwn yn ddigwyddiad mawr yng nghalendr Caerfyrddin ac y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i'w aildrefnu.

Mae'r Seremonïau Dinesig sy'n gysylltiedig gyda Sefydlu'r Maer ym mis Mai hefyd wedi'u canslo.

Ni fydd unrhyw fwciad yn cael ei gymryd ynglŷn â hurio Neuadd Ddinesig San Pedr nes bydd rhybudd pellach.

Dywedodd Maer Caerfyrddin, y Cyng. Jeff Thomas: 'Rydym yn amlwg yn siomedig iawn i orfod cymryd y camau hyn, ond mae'n rhaid i ni ddilyn cyngor cenedlaethol er mwyn helpu i gadw pobl yn ddiogel ac i leihau'r cyfle i bobl i ddal y firws.'

'Fe fydd Cyngor y Dref yn gwneud popeth a allwn i gefnogi pobl Caerfyrddin yn ystod y cyfnod anodd hwn. Yn benodol byddwn yn parhau i ddarparu ein holl wasanaethau eraill, gan gynnwys y siop de cymunedol ym Mharc Caerfyrddin, cynnal a chadw holl barciau cyhoeddus lleol a'r fynwent, a bydd ein staff yn parhau i weithio ac i fod yn gyffyrddadwy er mwyn helpu i ddelio gydag unrhyw fater y bydd pobl efallai angen cefnogaeth neu gyngor gyda. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n nifer o bartneriaid a sefydliadau erial, gan gynnwys Cyngor Sir

Caerfyrddin, i sicrhau bod pobl fregus ac yn arbennig y rhai sydd heb deulu i'w cefnogi yn medru cysylltu â ni a gobeithio derbyn unrhyw help sydd angen arnynt'.

'Dylai unrhyw un sy'n dymuno siarad gyda Chyngor Tref Caerfyrddin gysylltu â ni ar 07796 134881'

Alun J Harries

**Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin - Clerk, Carmarthen Town Council
07796 134881**

17^{eg} o Fawrth 2020